**P2122-341**

**Prifysgol Abertawe**

**Polisi Chwythu'r Chwiban (Datgelu er Lles y Cyhoedd)**

## 1. Rhagarweiniad

Mae Prifysgol Abertawe'n ymrwymedig i sicrhau'r safonau uchaf o ran didwylledd, uniondeb, ac atebolrwydd. Mae'n ymdrechu i gynnal ei busnes mewn modd cyfrifol gan dalu sylw priodol i ofynion y cyrff ariannu a'r safonau ar gyfer bywyd cyhoeddus a amlygwyd yn Egwyddorion Nolan, sef: anhunoldeb, uniondeb, gwrthrychedd, atebolrwydd, agoredrwydd, gonestrwydd ac arweinyddiaeth.

Mae Deddf Datgelu er Lles y Cyhoedd 1998 (fel y'i diwygiwyd yn 2013) yn rhoi amddiffyniad cyfreithlon i gyflogeion a gweithwyr sy'n datgelu gwybodaeth gyfrinachol am gamymddygiad yn y gweithle, p'un ai cyflogeion/gweithwyr eraill neu'r cyflogwr sy'n ei gyflawni, pan fydd y pryderon hyn yn ddifrifol ac yn debygol o fod yn berthnasol i'r cyhoedd mewn ffordd ehangach.

1.1 Mae'r polisi hwn yn berthnasol i'r holl gyflogeion, myfyrwyr, gweithwyr lleyg, contractwyr, ymgynghorwyr, swyddogion, interniaid a gweithwyr achlysurol ac asiantaeth.

1.2 Os ydych chi'n gyflogai, nid yw'r polisi hwn yn rhan o'ch contract cyflogaeth.

1.3 Ni fwriadwyd i'r polisi hwn ddisodli polisïau a gweithdrefnau eraill y Brifysgol a dylid codi'r canlynol yn y ffordd arferol:

1.3.1 Nod y polisi hwn yw cynnwys pryderon ynghylch camymddygiad sydd er budd ehangach y cyhoedd.

1.3.2 Honiadau am gamymddygiad mewn ymchwil - dylid adrodd am y rhain drwy ddefnyddio Polisi Ymdrin â Honiadau o Gamymddygiad mewn Ymchwil y Brifysgol (dolen);

1.3.3 Dylai materion sy'n ymwneud â chwyn gan unigolyn am ei gyflogaeth neu'r ffordd mae eraill yn ymddwyn tuag ato, gan gynnwys unrhyw achwyniad neu gŵyn bersonol sydd ganddo, gael ei chodi o dan Ordinhad Achwyn y Brifysgol (dolen) neu'n unol â'r Polisi Urddas yn y Gweithle ac wrth Astudio (dolen) fel y bo'n briodol;

1.3.4 Yn achos myfyrwyr, dylid codi pryderon sy'n cwympo o dan y categorïau a nodwyd uchod drwy'r gweithdrefnau achwyn arferol (dolen);

1.3.5 Materion sy'n ymwneud â gweithleoedd ar wahân i Brifysgol Abertawe, er enghraifft mewn ysbytai, busnesau neu leoedd eraill lle gallai myfyrwyr neu staff weithio ar leoliad/secondiad. Mewn achosion o'r fath, bydd y Brifysgol, yr Ysgol neu'r Adran yn sicrhau bod myfyrwyr a staff yn ymwybodol o'r gweithdrefnau chwythu'r chwiban perthnasol sydd ar waith yn y gweithleoedd eraill ac, os bydd angen, bydd yn darparu cymorth priodol i'r rhai hynny sy'n ceisio dilyn gweithdrefnau chwythu'r chwiban sefydliadau eraill;

1.3.6 Ni ddylai aelodau lleyg ystyried y weithdrefn hon fel ffordd o herio neu gwestiynu penderfyniadau busnes neu ariannol a wneir gan y Brifysgol; ffordd o apelio yn erbyn penderfyniadau a wnaed gynt o dan weithdrefnau eraill y Brifysgol; na ffordd o ymdrin â chamymddygiad neu dramgwyddo gan fyfyrwyr;

1.3.7 Ni ddylid cyflwyno pryderon dan y polisi hwn yr aethpwyd i'r afael â nhw yn unol â gweithdrefnau mewnol eraill, pan fydd penderfyniadau wedi'u gwneud a phrosesau apelio wedi'u disbyddu.

**2. Beth yw chwythu'r chwiban?**

Mae'r Adran Busnes, Arloesi a Sgiliau wedi datblygu Canllaw i Gyflogwyr a Chôd Ymarfer ar Chwythu'r Chwiban.

2.1 Nod y Brifysgol yw cynnal y safonau uniondeb uchaf posib ym mhopeth a wnaiff. Fodd bynnag, o bryd i'w gilydd, bydd ymddygiad sy'n beryglus, yn anghyfreithlon neu sy'n groes i godau moesol neu broffesiynol yn effeithio ar bob sefydliad. Os bydd gennych chi bryderon o'r fath, mae'r Brifysgol yn eich annog chi i roi gwybod amdanynt ar unwaith. Gelwir hyn yn 'chwythu'r chwiban' (a elwir yn ddatgelu er budd y cyhoedd yn fwy ffurfiol). Gallwn eich sicrhau y bydd y Brifysgol yn cymryd eich pryderon o ddifrif. Cânt eu harchwilio'n drylwyr a gallwch chi fod yn hyderus na fydd unrhyw ddialedd. Ceir manylion am amddiffyniad i'r rhai sy'n chwythu'r chwiban ym mharagraff 5, isod.

2.2 Mae'r mathau o bryderon y gallech chi fod eisiau eu codi â'r Brifysgol drwy chwythu'r chwiban yn cynnwys:

- unrhyw weithgaredd rydych chi'n amau y gallai fod yn droseddol;
- unrhyw weithgaredd rydych chi'n amau y gallai fod yn dwyllodrus;
- unrhyw weithgaredd rydych chi'n amau y gallai beryglu iechyd a diogelwch;
- unrhyw weithgaredd rydych chi'n amau y gallai fod yn andwyol i'r amgylchedd;
- unrhyw weithgaredd rydych chi'n amau y gallai fod yn gamymddygiad ac yn anghywirdeb ariannol, gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i'r isod: anghysondebau ariannol, llygredd, llwgrwobrwyaeth a/neu anonestrwydd);
- unrhyw weithgaredd rydych chi'n amau y gallai fod yn destun y Ddeddf Arian Troseddol;
- unrhyw weithgaredd rydych chi'n amau y gallai fod yn gamweinyddiad cyfiawnder;
- unrhyw fethiant i gydymffurfio â rhwymedigaethau cyfreithiol neu reoleiddio;
- methiant i gydymffurfio â Siarter neu Statudau'r Brifysgol a/neu Reoliadau'r Brifysgol;
- unrhyw ymddygiad anfoesol;
- unrhyw fethiant i fodloni gofynion proffesiynol; a/neu
- unrhyw gais i guddio un neu fwy o'r gweithgareddau hyn.

Nid yw'n fwriad bod y rhestr hon yn gynhwysfawr, ac anogir aelodau'r Brifysgol i ddefnyddio'r polisi hwn os ydynt o'r farn eu bod wedi darganfod camymddygiad neu anghywirdeb.

2.3 Os ydych chi'n amau, siaradwch â'ch rheolwr llinell, eich tiwtor neu unigolyn cymwys arall os nad ydych chi'n siŵr a yw rhywbeth rydych chi'n ymwybodol ohono wedi'i gynnwys yn y polisi hwn. Sylwer: os bydd eich cwyn wedi'i chynnwys o dan bolisi prifysgol amgen, cewch gyngor ar sut i symud ymlaen.

2.4 Gellir gwneud datgeliad o dan y polisi hwn gan unigolyn neu ar y cyd ag eraill.

**3. Sut i godi pryder chwythu'r chwiban**

3.1 Mewn achosion lle mae unigolyn yn bwriadu gwneud datgeliad o dan y polisi hwn, dylid fel arfer ei wneud i'r Brifysgol yn y lle cyntaf. Fel a nodwyd yn 2.4 uchod, os bydd angen

cymorth neu gyngor arnoch chi wrth godi pryder, gallwch chi siarad â'ch rheolwr llinell yn y lle cyntaf, a fydd yn gallu rhoi cymorth ychwanegol i chi gyda'r weithdrefn isod.

3.2 Dylech chi ysgrifennu at y Prif Swyddog o dan y polisi hwn, sef naill ai'r Cofrestrydd a Phrif Swyddog Gweithredu neu'r Profost. Os yw eich pryder yn ymwneud â gweithredoedd yr Is-ganghellor, y Cofrestrydd a Phrif Swyddog Gweithredu neu'r Profost, dylech chi ysgrifennu at Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio, Sicrwydd a Risg.

3.3 Dylai eich llythyr nodi'n glir eich bod chi'n codi pryderon yn unol â'r Polisi Chwythu'r Chwiban hwn ac yna esbonio'r pryderon hynny. Dylech chi gynnwys yr holl ffeithiau a dyddiadau allweddol ynghyd ag enwau'r bobl dan sylw. Ar dderbyn eich llythyr, bydd y Prif Swyddog yn ysgrifennu atoch chi yn cydnabod derbyn eich llythyr o fewn 5 niwrnod gwaith.

3.4 Cewch eich gwahodd i gyfarfod i drafod eich pryderon, ac mae'r hawl gennych chi fynd â chydweithiwr neu gynrychiolydd o'r undeb llafur gyda chi i'r cyfarfod hwn ac unrhyw gyfarfodydd dilynol. Os byddwch chi'n dod â rhywun gyda chi, rhaid i'r ddau ohonoch gytuno i gadw'r hyn rydych chi'n ei ddatgelu'n gyfrinachol cyn ac wedi'r cyfarfod ac yn ystod unrhyw ymchwiliad a allai ddilyn.

3.5 Yn dilyn y cyfarfod cychwynnol, efallai y gofynnir i chi fynd i gyfarfodydd pellach, a allai gynnwys arbenigwyr â dealltwriaeth neu brofiad penodol am y materion rydych chi'n eu codi.

3.6 Bydd y Prif Swyddog yn ystyried yr wybodaeth a gyflwynwyd iddo ac yn penderfynu pa fath o ymchwiliad y dylid ei gynnal. Yr opsiynau yw: a) ymchwilio i'r mater yn fewnol a phenodi Ymchwilydd Annibynnol; b) cyfeirio'r mater at sylw'r heddlu; c) galw am ymchwiliad allanol annibynnol.

3.6.1 Os penderfynir cynnal ymchwiliad gan ddefnyddio mwy nag un o'r dulliau uchod, dylai'r Prif Swyddog fodloni ei hun bod cyfiawnhad dros weithredu felly.

3.6.2 Lle bydd y mater yn destun ymchwiliad mewnol, bydd y Prif Swyddog yna'n ystyried sut i benderfynu a oes achos prima facie i'w ateb. Bydd hyn yn cynnwys penderfynu: a) pwy ddylai gynnal yr ymchwiliad (Ymchwilydd Annibynnol); b) cylch gorchwyl yr Ymchwilydd Mewnol, gan gynnwys y gallu i wneud argymhellion i'r Brifysgol ynghylch y gweithredoedd i'w cymryd; c) y weithdrefn i'w dilyn; ch) cwmpas yr adroddiad terfynol. Os bydd gweithredoedd yr Is-ganghellor, y Cofrestrydd a Phrif Swyddog Gweithredu, y Profost neu unrhyw aelod o'r Uwch-dîm Rheoli yn destun chwythu'r chwiban, efallai y bydd y Prif Swyddog am benodi tîm annibynnol i gefnogi'r Ymchwilydd Annibynnol i sicrhau annibyniaeth lwyr.

3.6.3 Bydd yr Ymchwilydd Annibynnol a benodir yn ôl disgresiwn y Prif Swyddog, a gallai fod yn rhywun yn y Brifysgol yr ystyrir bod ganddo'r ddealltwriaeth a'r arbenigedd perthnasol am y materion a godwyd, neu unigolyn priodol sy'n dod o'r tu allan i'r Brifysgol. Bydd yr Ymchwilydd Annibynnol yn cynnal yr ymchwiliad mewnol ac yn adrodd am ei ganfyddiadau i'r Prif Swyddog. Bydd y Prif Swyddog yn gyfrifol am wneud unrhyw benderfyniad yn dilyn yr ymchwiliad ac yn ystyried unrhyw argymhelliad sy'n cael ei gyflwyno yn yr adroddiad.

3.6.4 O ganlyniad i'r ymchwiliad hwn, efallai y bydd y Prif Swyddog yn sbarduno gweithdrefnau mewnol eraill. Gellir hefyd gyfeirio at yr Heddlu neu gyrff allanol eraill ar y cam hwn.

3.6.5 Mewn rhai achosion, gallai fod angen cyfeirio'r mater at sylw awdurdod allanol i ymchwilio ymhellach iddo, er enghraifft Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru, neu un o'r cyrff a restrir yn y Ddeddf Datgelu er Lles y Cyhoedd.

3.7 Oherwydd y pryderon rydych chi wedi'u codi, mae'n debygol y bydd unigolion eraill yn destun cyfweliadau fel rhan o'ch Cwyn Chwythu'r Chwiban, gan gynnwys heb fod yn gyfyngedig i'r unigolyn y codwyd cwyn yn ei erbyn. Bydd yr unigolyn sy'n destun cyfweliad yn unol â'r broses hon yn derbyn cymorth cyfartal ac mae hawl iddo gael cydweithiwr neu gynrychiolydd o'r undeb llafur mewn unrhyw gyfarfod yn gwmni iddo ac i gael cymorth gan unrhyw unigolyn cymwys o dan y polisi hwn. Rhaid i unrhyw unigolyn, gan gynnwys y rhai hynny sy'n cael eu cyfweld, a'r holl unigolion sy'n mynd gydag ef, gytuno i gadw'r datgeliadau'n gyfrinachol cyn ac yn dilyn y cyfarfod ac yn ystod unrhyw ymchwiliad a allai ddilyn.

3.8 Byddwch chi'n cael diweddariad am sut mae'r ymchwiliad yn mynd rhagddo a pha mor hir mae'n debygol o gymryd. Fodd bynnag, weithiau ni fydd y Prif Swyddog yn gallu rhoi manylion i chi am yr ymchwiliad (ac unrhyw gamau gweithredu y mae'n arwain atynt) oherwydd bod yn rhaid i'r Brifysgol amddiffyn cyfrinachedd a chydymffurfio â rhwymedigaethau cyfreithiol. Rydym ni'n deall y gallai hyn beri rhwystredigaeth i chi a gwneud i chi boeni a yw unrhyw gamau gweithredu wedi cael eu cymryd, ac os bydd hyn yn digwydd, bydd unigolyn priodol yn esbonio pam mae'r Brifysgol yn gweithredu fel hyn. Hefyd, oherwydd cymhlethdod y pryderon rydych chi wedi'u codi, efallai na fydd hi'n bosib i'r Prif Swyddog roi amserlen i chi am ymchwiliad o'r fath. Fodd bynnag, bydd y Prif Swyddog yn eich diweddaru chi yn ôl yr hyn a ystyrir i fod yn briodol dan amgylchiadau'r ymchwiliad.

3.9 Caiff eich pryderon eu trin yn deg a bydd yr ymchwiliad yn drylwyr. Fodd bynnag, gallai'r canlyniad fod yn wahanol i'r hyn rydych chi'n ei ddisgwyl. Os nad ydych chi'n fodlon ar sut mae'r Brifysgol wedi cynnal yr ymchwiliadau, ac ymdriniwyd â'ch mater gan naill ai'r Cofrestrydd a Phrif Swyddog Gweithredu neu'r Profost, gallwch chi gyfeirio eich mater at Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio, Sicrwydd a Risg am ystyriaeth bellach. Os gwnaeth Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio, Sicrwydd a Risg ymdrin â'ch pryderon gwreiddiol, gallwch chi gyfeirio'r mater at Gadeirydd y Cyngor am ystyriaeth bellach. Pan na fydd y person sy'n chwythu'r chwiban yn fodlon, mae ganddo hefyd yr hawl i gyfeirio ei bryderon at un o'r cyrff perthnasol y cyfeirir atynt ym mhwynt 3.6.5.

3.10 Ni fydd unigolyn yn dioddef unrhyw niwed am ddatgeliad sy'n dod dan baragraff 2.2. uchod ac mae'r Brifysgol yn annog unigolion i drafod y mater os bydd ganddynt bryderon. Hyd yn oed os cyfyd y datgeliad yn anghywir, ni fydd yr unigolyn sy'n gwneud y datgeliad yn dioddef unrhyw niwed ar yr amod ei fod yn credu'r hyn roedd yn ei ddweud ar adeg cyflwyno'r pryderon. Ceir manylion am amddiffyniad i bobl sy'n chwythu'r chwiban ym mharagraff 5 isod.

**4. Cyfrinachedd ac anhysbysrwydd**

4.1 Mae gwahaniaeth sylweddol rhwng cadw eich pryderon yn gyfrinachol a gwneud datgeliad dienw. Er ein bod ni'n annog pobl i beidio â chwythu'r chwiban yn rhagweithiol, gall y Brifysgol ddefnyddio ei disgresiwn mewn amgylchiadau eithriadol.

4.1.1 Wrth arfer y disgresiwn hwn, bydd y ffactorau i'w hystyried yn cynnwys y canlynol: pa mor ddifrifol yw'r materion a godwyd; hygrededd y pryderon; a'r tebygolrwydd y bydd modd cadarnhau'r honiad o ffynonellau hysbys.

4.1.2 Mae'n anodd iawn - ac weithiau'n amhosib - ymchwilio i bryderon sy'n cael eu codi'n ddienw. Ni all y Brifysgol gadarnhau'n foddhaol a yw'r honiadau'n rhai credadwy heb ofyn i chi am ragor o fanylion neu am eglurhad, ac mae hyn yn ei gwneud hi'n anodd gwneud penderfyniad gwybodus. Dyma pam fe'ch anogir i beidio ag adrodd am faterion yn ddienw.

4.2 Fe'ch anogir bob amser i godi pryderon yn agored, ac os yw'n well gennych chi, yn gyfrinachol. Bydd y Brifysgol yn gwneud popeth mae'n gallu i sicrhau y caiff eich hunaniaeth ei chuddio. Efallai bydd yr Ymchwilydd am ddatgelu eich hunaniaeth i bobl sy'n rhan o'r ymchwiliad ond bydd bob amser yn trafod hyn â chi'n gyntaf.

4.3 Bydd y Brifysgol yn trin unrhyw ddatgeliad priodol a wneir yn unol â'r polisi hwn mewn modd cyfrinachol a sensitif. Felly, bydd yn ymdrechu i gadw enw'r sawl a ddatgelodd yr wybodaeth yn gyfrinachol. Fodd bynnag, rhaid deall y gallai'r broses ymchwilio ddatgelu ffynhonnell yr wybodaeth, a'i bod yn bosibl y bydd angen datganiad ffurfiol gan yr unigolyn fel rhan o'r broses ymchwilio.

4.4 Cewch eich amddiffyn rhag dialedd yn unol â'r polisi hwn (gweler paragraff 5) ond os ydych chi'n poeni o hyd, dylech drafod hyn â'r Prif Swyddog, yr Ymchwilydd neu unigolyn priodol a byddant yn archwilio i ba raddau y gall yr ymchwiliad gadw eich pryderon yn gyfrinachol.

**5. Sut caiff pobl sy'n chwythu'r chwiban eu hamddiffyn**

5.1 Os byddwch chi'n codi pryder o dan y polisi hwn, bydd y Brifysgol yn eich cefnogi'n llawn, hyd yn oed os cyfyd drwy'r ymchwiliadau y codwyd y pryder o ganlyniad i gamgymeriad diniwed neu na thorrwyd polisi, rhwymedigaeth gyfreithiol etc. Fodd bynnag, os ydych chi'n teimlo eich bod chi wedi'ch trin yn anffafriol o ganlyniad i godi pryder, rhaid dweud wrth y Prif Swyddog ar unwaith. I ddechrau, dylech chi ddweud wrth eich rheolwr. Os bydd y mater yn parhau heb ei ddatrys, rhaid i chi ddilyn y broses ffurfiol o dan yr Ordinhad Achwyn.

5.2 Gellir ystyried annhegwch neu driniaeth anffafriol gan gyflogwr, myfyriwr neu aelod arall o'r Brifysgol, o ganlyniad i'r person hwnnw'n codi pryder o dan y polisi hwn, yn dramgwydd ddisgyblu ddifrifol yn unol â gweithdrefn disgyblu'r Brifysgol.

5.3 Gellir ystyried annhegwch neu driniaeth anffafriol o unigolyn sydd wedi cefnogi cyflogwr, myfyriwr neu aelod arall o'r Brifysgol, o ganlyniad i'r person hwnnw'n codi pryder o dan y polisi hwn, yn dramgwydd ddisgyblu ddifrifol yn unol â gweithdrefn disgyblu'r Brifysgol.

5.4 Rhoddir yr un amddiffyniad i bobl sy'n chwythu'r chwiban, felly ni all unigolion fygwth eraill sydd wedi codi pryderon na dial arnynt. Gallai unigolion sy'n gwneud hynny wynebu camau disgyblu a allai gynnwys diswyddo am gamymddygiad difrifol, os cyfyd eu bod wedi gwneud hynny. Gall unigolion sy'n gwneud hynny hefyd wynebu camau cyfreithiol gan y person sy'n chwythu'r chwiban yn yr amgylchiadau hyn.

5.5 Bydd unrhyw unigolyn o fewn cwmpas y polisi hwn sy'n ceisio atal unigolyn rhag codi pryder o dan y polisi hwn yn wynebu camau disgyblu a allai gynnwys diswyddo am gamymddygiad difrifol. Gallant hefyd wynebu camau cyfreithiol gan y person sy'n chwythu'r chwiban dan yr amgylchiadau hyn.

5.6 Fodd bynnag, dylid nodi na chaiff yr un datgeliad a wneir gan unrhyw un yn y sefydliad yn anonest neu'n faleisus ei oddef a gallai arwain at gamau disgyblu. Mae datgeliadau o'r fath yn tanseilio holl gredo'r polisi chwythu'r chwiban.

**6. Cyflwyno eich pryderon y tu allan i'r Brifysgol**

6.1 Mae'r polisi hwn yn amlinellu'r broses ar gyfer codi, archwilio a datrys drygioni neu gamymddygiad yn y Brifysgol. Yn anaml y bydd yn ofynnol i unrhyw un o'r tu allan i'r Brifysgol fod yn rhan o'r broses pan fydd honiad chwythu'r chwiban.

6.2 Mewn rhai amgylchiadau eithriadol, efallai y bydd angen i chi fynd i gorff allanol neu reolydd.

6.3 Mae'r polisi hwn yn cynnwys gweithredoedd trydydd parti, megis cyflenwyr, darparwyr gwasanaethau a chleientiaid, yn ogystal â'n staff, ein myfyrwyr a'n haelodau lleyg. Os bydd gennych chi bryderon am drydydd parti, fe’ch anogir i godi'r pryderon hyn gyda ni cyn mynd at unrhyw un arall. Bydd eich rheolwr llinell, eich tiwtor neu berson priodol yn gallu esbonio sut y dylech chi fynd yn eich blaen.

6.4 Prin iawn, os byth, y caiff dweud wrth y cyfryngau neu drydydd parti amherthnasol am bryder ei gyfiawnhau neu y bydd yn briodol mewn unrhyw sefyllfa cyn neu yn ystod ymchwiliad mewnol. Rydym ni'n eich annog yn gryf i beidio â gwneud hynny a gellir ystyried cysylltu â'r wasg i fod yn fater disgyblu sy'n cyfiawnhau diswyddo, oni bai fod amgylchiadau eithriadol. Fel arfer, byddem ni'n disgwyl i chi fod wedi cymryd yr holl gamau rhesymol o ymdrin â'r  mater yn fewnol neu gyda rheolydd allanol, a bod wedi cymryd cyngor cyfreithiol cwbl annibynnol cyn bod cyfiawnhad dros fynd i'r wasg neu drydydd parti amherthnasol. Dylech chi hefyd nodi bod posibilrwydd y bydd mynd i'r wasg neu drydydd parti amherthnasol yn effeithio ar eich hawliau a'ch amddiffyniad o dan Ddeddf Datgelu er Lles y Cyhoedd 1998 (fel y'i diwygiwyd yn 2013).

6.5 Mewn perthynas â'r rheoleiddwyr allanol y soniwyd amdanynt uchod (6.2), bydd hyn yn dibynnu ar natur y pryder. Fodd bynnag, gallai’r rhain gynnwys, ond nid ydynt yn gyfyngedig i’r canlynol:

- Y Comisiwn Elusennau
- Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (HEFCW)
- Y Swyddfa Gartref
- Awdurdod Rheoleiddio'r Heddlu perthnasol
- Y Cyngor Ymchwil perthnasol
- Cyrff Cyllido Allanol

Yn unol â chymalau 2.3 a 2.4 uchod, os bydd amheuaeth, gallwch chi ofyn am gyngor a chymorth gan eich rheolwr llinell, eich tiwtor neu unigolyn cymwys.

**7. Adrodd am ganlyniadau**

7.1 Bydd y Prif Swyddog yn cyflwyno adroddiad ar bob datgeliad a’r camau gweithredu a gymerwyd wedi hynny, a bydd yn cadw'r fath adroddiadau am dair blynedd. Ym mhob achos, rhoddir adroddiad manwl am ganlyniadau unrhyw ymchwiliad i'r Pwyllgor Archwilio, Sicrwydd a Risg, er mwyn galluogi’r Pwyllgor i fonitro effeithiolrwydd y weithdrefn.

Cymeradwywyd gan y Cyngor – 29 Tachwedd 2021